Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar**

**Ysgol Gynradd Gymraeg Felindre**
**Heol Myddfai**
**Felindre**
**Abertawe**
**SA5 7ND**

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2012**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2012: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Lleolir yr ysgol Gymraeg benodedig hon ynghanol pentref Felindre ger Llangyfelach. Mae'n gwasanaethu'r pentref a'r dalgylch gwledig o gwmpas ac fe'i cynhelir gan awdurdod addysg lleol Dinas a Sir Abertawe.

Disgrifir yr ardal fel un nad yw'n ffyniannus nac o dan anfantais economaidd.  Mae 7.7% o'r disgyblion â'r hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim – ffigwr sydd yn llawer is na'r cyfartaleddau sirol a chenedlaethol.  Erbyn hyn, mae dros 30% o'r plant sy'n dod i'r ysgol yn byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yn Abertawe.

Ar hyn o bryd, mae 66 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed ar gofrestr yr ysgol.  Fe'u derbynnir yn rhan amser yn syth wedi eu trydydd pen-blwydd ac yn amser llawn ar ddechrau'r flwyddyn addysgol maent yn bump oed.  Mae'r niferoedd disgyblion wedi codi'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf.  Fe'u haddysgir mewn dosbarth meithrin (prynhawniau'n unig), un dosbarth Cyfnod Sylfaen, a dau ddosbarth ar gyfer disgyblion saith i 11 oed.  Mae cyrhaeddiad disgyblion yn amrywio'n fawr pan ddechreuant yn yr ysgol.

Mae pedwar o ddisgyblion (tua 6%) ar y gofrestr anghenion dysgu ychwanegol, ac mae gan un ohonynt ddatganiad o anghenion addysgol arbennig.

Daw wyth o'r disgyblion (tua 12%) o gartrefi ble siaredir y Gymraeg ar yr aelwyd. Cymraeg yw cyfrwng addysgu a dysgu ar draws yr ysgol, ond fe gyflwynir rhaglen astudio Saesneg i ddisgyblion Cyfnod Allweddol 2.  Nid oes disgyblion o gefndir lleiafrifol ethnig yn yr ysgol ar hyn o bryd.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym Mawrth 2006, a bu newidiadau sylweddol yn staffio'r ysgol ers hynny.  Mae'r pennaeth dros dro, sydd ar secondiad o ysgol arall, wedi bod yn ei swydd ers Medi 2011, a phenodwyd dwy athrawes newydd i gyfnod allweddol dau ar yr un adeg. Penodwyd athrawes ran amser ar gyfer y dosbarth meithrin ym Mis Hydref 2011.

Mae'r gyllideb ysgol unigol ar gyfer Ysgol Gynradd Gymraeg Felindre yn 2011-2012 yn £4,628 fesul disgybl.  Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd yn Abertawe yw £11,089 a'r lleiafswm yw £2,560.  Mae Ysgol Gynradd Gymraeg Felindre yn y pedwerydd safle o'r 86 ysgol gynradd yn Abertawe o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad cyfredol yr ysgol yn dda oherwydd bod:

- disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu yn ystod eu gyrfa ysgol ac mae'r mwyafrif yn cyrraedd lefelau cystal neu well na'r disgwyl yn ôl oed a gallu;
- y disgyblion bron i gyd yn cydweithio'n dda ac yn gweithio'n ddyfal mewn sesiynau dysgu;
- disgyblion yn datblygu medrau cyfathrebu effeithiol yn Gymraeg ac yn Saesneg;
- disgyblion yn hynod effeithiol wrth ddefnyddio ystod eang o offer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu;
- yr addysgu ar draws yr ysgol yn dda; a bod
- yr ysgol yn darparu amrywiaeth ddychmygus iawn o gyfleoedd i'r disgyblion er mwyn cyfoethogi eu dysgu, ac yn defnyddio'r ardal leol a'i thrigolion yn effeithiol iawn i gefnogi'r dysgu.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd bod:

- y pennaeth dros dro yn darparu arweinyddiaeth ragorol, a gweledigaeth eglur sy'n cael ei rhannu'n effeithiol;
- pob aelod o staff a gwirfoddolwyr yn llwyr ymwybodol o'r blaenoriaethau;
- ansawdd cyffredinol cydlynu meysydd cyfrifoldeb yn arbennig o dda;
- hunanarfarnu'n greiddiol i fywyd a gwaith yr ysgol ac yn rhoi sylw cyson i dystiolaeth am ansawdd yr addysgu a'r dysgu;
- defnydd effeithiol iawn o'r dystiolaeth sy'n deillio o hunanarfarniadau i fwydo cynlluniau gwella gyda ffocws ar wella medrau;
- y cynlluniau gwella blynyddol o ansawdd arbennig o dda ac yn cynnwys strategaethau priodol sy'n diffinio tasgau i'w cyflawni o fewn cyfnodau addas; a bod
- y bartneriaeth agos gyda'r gymuned leol yn cael effaith gadarnhaol iawn ar gynnydd a lles disgyblion.

## Argymhellion

Er mwyn gwella mae angen i'r ysgol:

A1 barhau i godi safonau medrau rhifedd fel bod disgyblion yn hyderus i'w defnyddio mewn cyd-destunau amrywiol;

A2 gwella presenoldeb disgyblion;

A3 sicrhau cysondeb ac effeithiolrwydd asesu ar gyfer dysgu ar draws yr ysgol; a

A4 datblygu rôl strategol y corff llywodraethol yn monitro safonau a pherfformiad yr ysgol.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i ymateb i'r argymhellion. Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i lunio astudiaeth achos ysgrifenedig, yn disgrifio'r arfer ragorol a nodwyd yn ystod yr arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae disgyblion Ysgol Felindre yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu yn ystod eu gyrfa ysgol. Mae'r disgyblion mwyaf galluog yn cyrraedd safonau uchel.

Mae'r disgyblion bron i gyd yn gwrando'n astud, yn cydweithio'n dda ac yn gweithio'n ddyfal mewn sesiynau dysgu. Gall mwyafrif y disgyblion drafod eu dysgu yn effeithiol ond, ar draws yr ysgol, mae eu dealltwriaeth o'r hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith yn anghyson.

Er bod llawer o'r disgyblion yn hanu o gartrefi lle siaredir Saesneg fel iaith gyntaf, maent yn datblygu i ddefnyddio'r Gymraeg yn gyflym. O oed cynnar, mae bron pob un o'r disgyblion yn cyfathrebu'n hyderus ar lafar yn Gymraeg ac yn Saesneg. Gallant sgwrsio'n glir a brwdfrydig am eu gwaith ac mewn amrywiol sefyllfaoedd anffurfiol, gan ddefnyddio geirfa briodol a chynyddol gyfoethog.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n ddarllenwyr effeithiol yn unol â'u hoed a'u gallu. Maent yn darllen yn rhugl, yn gywir ac yn ddeallus yn Gymraeg ac yn Saesneg. Gallant drafod cynnwys llyfrau'n effeithiol, mynegi barn amdanynt a thrafod eu hoff awduron. Maent yn ysgrifennu'n estynedig yn llwyddiannus mewn Cymraeg a Saesneg mewn ystod dda o bynciau ar draws y cwricwlwm.

O oed ifanc iawn, mae'r disgyblion yn gwneud defnydd hynod effeithiol o offer cyfrifiadurol megis camerâu llonydd a fideo, offer recordio, cyfrifiaduron cludadwy, a nifer o raglenni i gefnogi eu dysgu.

Mae medrau rhifedd disgyblion yn datblygu'n briodol ar y cyfan, ond nid yw lleiafrif o'r disgyblion yn ddigon hyderus yn eu medrau i'w defnyddio'n hwylus ar draws y cwricwlwm.

Oherwydd bod y carfannau o ddisgyblion yn gyson fach ar ddiwedd cyfnod allweddol 1 a chyfnod allweddol 2 yn ystod y pum mlynedd ddiwethaf, nid yw'n bosibl dod i farn ystyrlon yn seiliedig ar ganlyniadau asesiadau athrawon. Nid oedd un disgybl ym mlwyddyn chwech yn 2011.

Mae trefniadau tracio cynnydd mewnol yr ysgol yn dangos yn eglur bod pob disgybl yn gwneud cynnydd cyson, a bod y mwyafrif yn cyrraedd lefelau cystal neu well na'r disgwyl yn ôl oed a gallu.

Mae'r canlyniadau ar ddiwedd cyfnod allweddol 1 mewn Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn oherwydd maint y carfannau. Mae'r dangosydd pwnc craidd, sy'n ystyried perfformiad disgyblion yn y tri phwnc gyda'i gilydd, hefyd yn dangos amrywiaeth o flwyddyn i flwyddyn.

Mae canlyniadau asesiadau athrawon ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn dangos yr un amrywiaeth, ac nid oes modd gwneud cymhariaeth o gwbl ar gyfer y flwyddyn 2011.

Yng nghyfnod allweddol 1, mae nifer y disgyblion sy'n perfformio ar y lefelau uwch (lefel 3 neu uwch) yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf yn uwch na chyfartaleddau'r teulu o ysgolion a Chymru. Yng nghyfnod allweddol 2, mae nifer y disgyblion sy'n perfformio ar lefel 5 neu uwch yn ystod y pedair blynedd hyd at 2010 wedi amrywio'n fawr, heb unrhyw batrwm cyson.

**Lles: Da**

Mae'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel iawn yn yr ysgol ac yn ymwybodol o bwysigrwydd bwyta'n iach ac ymarfer corff yn rheolaidd.

Mae'r disgyblion yn cael cyfle i leisio barn a mynegi pryder. Mae mwyafrif y disgyblion yn datgan eu bod yn cael eu trin â pharch ac yn medru troi at oedolion am gymorth os bydd angen, ac yn cyfrannu'n weithredol at fywyd yr ysgol trwy weithgareddau'r cyngor ysgol a'r 'Sgwad Diogelwch'.

Mae ymddygiad y plant yn gyson dda iawn. Maent yn parchu Rheolau Aur yr ysgol ac yn ymroi'n frwdfrydig i ddysgu o fewn y gwersi.

Mae presenoldeb yr ysgol ar gyfer 2010-2011 yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae hwn yn ostyngiad dros y ddwy flynedd ddiwethaf, tra bod y lefel sesiynau a gollwyd heb ganiatâd yn isel. O'i chymharu gydag ysgolion tebyg o ran nifer y disgyblion sydd â'r hawl i dderbyn cinio am ddim, mae'r ysgol wedi bod yn y 25% isaf ers pedair blynedd.

Mae'r disgyblion yn falch o'u hysgol a'u cymuned leol ac yn gwerthfawrogi'r cyfle i gael gwneud gwahaniaeth. Maent yn mwynhau cyfrannu tuag at weithgareddau'r cyngor ysgol a'r cyngor eco ac yn falch o'r cyfle i godi arian er budd elusennau a phobl eraill.

O ganlyniad i gyfoeth o weithgareddau cymunedol ac allanol mae medrau cymdeithasol a bywyd yn datblygu'n ardderchog. Mae disgyblion yn adnabod eu cymuned yn dda iawn, ac yn ei gwerthfawrogi.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Rhagorol**

Mae'r ysgol yn darparu amrywiaeth ddychmygus iawn o gyfleoedd i'r disgyblion er mwyn cyfoethogi eu dysgu. Mae'r modd y mae athrawon wedi lledaenu ethos a gwerthoedd y Cyfnod Sylfaen trwy'r ysgol, er mwyn datblygu medrau'r disgyblion, yn rhagorol.

Mae'r modd y mae'r staff yn cynllunio'n fwriadus ar gyfer datblygu'r medrau ar draws y cwricwlwm yn gryfder arbennig. Mae'r ardaloedd darpariaeth parhaus ym mhob dosbarth yn cyfoethogi gweithgareddau ffocws yn effeithiol iawn. Mae cyfleoedd da

iawn i ddatblygu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu a iaith mewn amrywiaeth eang o gyd-destunau. Rhoddir ystod dda o gyfleoedd i'r disgyblion ysgrifennu yn amrywiol ac ymestynnol a hynny ar draws ystod o bynciau'r cwricwlwm.

Caiff yr ardal leol a'i thrigolion eu defnyddio yn effeithiol iawn i gefnogi'r dysgu. Trwy gynllunio bwriadus, defnyddir y gymuned leol fel adnodd dysgu arbennig. Mae'r cyfleoedd a ddaw yn sgil partneriaethau gydag ysgol uwchradd y dalgylch a Choleg Addysg bellach lleol yn gryfder amlwg. Mae'r disgyblion yn cael eu paratoi'n rhagorol i ddod yn aelodau cyfrifol a chyflawn sy'n cyfranogi'n helaeth yn eu cymuned.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer y cwricwlwm Cymreig wedi ei gynllunio'n briodol trwy themâu priodol megis Cestyll Cymru. Mae'r gweithgareddau heriol ac ysgogol yn arwain at gynnydd da iawn mewn medrau cyfathrebu a darllen.

Mae'r cyngor eco yn llwyddiannus wrth hybu mentrau fel ailgylchu, arbed ynni a bwyta'n iach. Mae ardal allanol yr ysgol yn cynyddu cyfleoedd dysgu ac yn hybu brwdfrydedd y plant dros ddysgu.

**Addysgu: Da**

Mae'r addysgu ar draws yr ysgol yn dda. Mae gwahaniaethu o ansawdd uchel yn digwydd o fewn y gwersi er mwyn diwallu anghenion pob disgybl. Mae gwybodaeth drylwyr gan yr athrawon a chynlluniau manwl a phwrpasol wedi eu darparu ac ar waith drwy'r ysgol.

Yn y lleiafrif o gwersi lle gwelir elfennau rhagorol, defnyddir ystod eang o arddulliau addysgu a hybir dysgu annibynnol yn effeithiol iawn i ysbrydoli'r disgyblion. Mae ethos gweithgar a hapus ac ymdeimlad o barch yn amlwg yn y dosbarthiadau.

Mae'r athrawon i gyd yn cyflwyno gwersi'n fywiog a chlir, ac yn modelu iaith yn dda iawn. Cyfeirir at ddysgu blaenorol, gan adeiladu ar y profiadau hynny. Mae'r athrawon yn rhannu amcanion a meini prawf llwyddiant yn gyson gyda'r disgyblion. Gwna'r athrawon ddefnydd effeithiol a phwrpasol o adnoddau addysgu, gan gynnwys technoleg gwybodaeth a chyfathrebu i gyfoethogi'r dysgu. Mae'r athrawon yn cwestiynu'n bwrpasol ac yn dreiddgar er mwyn symud y dysgu ymlaen, ac er mwyn annog y disgyblion i feddwl drostynt eu hunain. Mae'r cymorthyddion dosbarth yn cefnogi'r disgyblion yn effeithiol iawn trwy'r ysgol.

Mae strategaethau da ar gyfer asesu ar gyfer dysgu wedi eu hintegreiddio i'r gwersi ac yn datblygu i fod yn rhan o ethos yr ysgol. Mae bron pob disgybl yn ymwybodol o'u targedau ar gyfer gwelliant. Mae'r athrawon yn darparu adborth eglur a chefnogol. Lle mae'r marcio'n fwyaf effeithiol, yn y mwyafrif o dosbarthiadau, mae'r targedau ar gyfer gwelliant yn fanwl ac adeiladol. Anghyson yw'r cyfleoedd i'r disgyblion hunanasesu ac i asesu gwaith cymheiriaid fel eu bod yn chwarae rhan amlwg yn eu dysgu eu hunain.

Mae'r systemau asesu a thracio cynnydd disgyblion yn ardderchog. Defnyddir y wybodaeth sy'n deillio ohonynt, ynghyd ag asesiadau athrawon, yn hynod effeithiol i ddatblygu'r camau nesaf ar gyfer pob disgybl. Mae'r ysgol yn cynnig gwybodaeth fanwl i rieni am gyflawniad a chynnydd eu plant sy'n nodi cryfderau a thargedau ar gyfer gwelliant o fewn y medrau.

**Gofal, cymorth ac arweiniad:  Da**

Gwneir defnydd priodol o gymorth gwasanaethau arbenigol allanol yn cynnwys y gwasanaethau lles addysg, meddygol ac argyfwng.  Mae'r ysgol yn rhagweithiol yn y modd y mae'n mynd ati i dderbyn cymorth gan sefydliadau eraill i ddarparu cyfleoedd i ddisgyblion dderbyn ystod eang o wybodaeth a medrau.

Mae'r ysgol yn darparu gofal arbennig i bob un o'i disgyblion.  Mae'n gymuned ddysgu ofalgar iawn lle mae'r staff a'r disgyblion yn parchu'r naill a'r llall.

Mae'r ysgol yn hybu datblygiad ysbrydol y disgyblion yn llwyddiannus.  Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn effeithiol iawn.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau a pholisi priodol ar gyfer diogelu.

Mae'r broses ar gyfer adnabod disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn drylwyr.  Mae'r ysgol yn adnabod y disgyblion sydd angen cymorth yn gynnar ac yn darparu rhaglenni unigol addas ar eu cyfer.  Cryfder amlwg yw'r ystyriaeth a roddir i lais y disgybl yn y cynlluniau addysg unigol.  Gwneir defnydd effeithiol o wasanaethau arbenigol a staff yn yr ysgol i gefnogi ac arwain disgyblion gydag anghenion dysgu ychwanegol.  Mae'r ysgol yn trefnu cyfarfodydd adolygu rheolaidd a gweithredir yn effeithiol ar yr argymhellion.  Mae'r rhieni a gofalwyr yn cael eu cynnwys yn effeithiol.

**Yr amgylchedd dysgu:  Da**

Mae ethos cynhwysol yn yr ysgol, sy'n gymuned hapus a chroesawgar gydag awyrgylch cynnes ymhlith y staff a'r disgyblion.

Mae polisiau, cynlluniau a gweithdrefnau yn eu lle sy'n sicrhau cyfle cyfartal i bob disgybl ac sy'n hybu cydraddoldeb ac amrywiaeth cymdeithasol.

Gwneir defnydd da iawn o dir ac adeilad yr ysgol er mwyn ysgogi dysgu'r disgyblion.  Ceir cyflenwad helaeth o adnoddau o ansawdd da.  Mae arddangosfeydd lliwgar a symbylus drwy'r ysgol gyfan.  Mae'r cyfleusterau yn lân ac addas a chaiff yr holl safle a'r adeilad eu cadw'n raenus.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3:  Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Rhagorol** |

**Arweinyddiaeth:  Rhagorol**

Mae'r pennaeth dros dro yn darparu arweinyddiaeth effeithiol iawn.  Mae ganddi weledigaeth glir ynglŷn â sut mae angen i'r ysgol barhau i ddatblygu.  Mae ei rheolaeth yn bwrpasol a chynhwysol ac yn sicrhau cefnogaeth llywodraethwyr, staff, y disgyblion a'r gymuned.  Arweiniodd broses drylwyr a chynhwysol o newid gan lwyddo'n llawn sicrhau ymrwymiad yr holl randdeiliaid i wella'r ddarpariaeth a chodi safonau.

Mae'r pennaeth yn gosod amcanion a thargedau clir er mwyn sicrhau datblygiad pellach yr ysgol ac mae pob aelod o staff a gwirfoddolwyr yn ymwybodol o'r blaenoriaethau ac o werthoedd yr sgol.

Mae ansawdd cyffredinol cydlynu meysydd cyfrifoldeb yn arbennig o dda. O ganlyniad i ddull cynhwysol y pennaeth o arwain, mae arweinwyr pynciau yn cymryd cyfrifoldeb llawn am eu meysydd, gan lunio polisïau a chynlluniau gweithredu priodol.

Seiliwyd cynlluniau gwella yn gryf ar flaenoriaethau lleol a chenedlaethol, ac mae'r ffordd y mae'r pennaeth dros dro wedi cydlynu'r blaenoriaethau hyn fel sail i'w weledigaeth yn gryfder amlwg. Er enghraifft, mae blaenoriaeth uchel wedi ei rhoi i hyrwyddo a gwella safonau llythrennedd a rhifedd ac i sicrhau bod disgyblion yn caffael medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu da.

Mae'r corff llywodraethol yn gefnogol i'r ysgol. Mae'r llywodraethwyr yn dechrau datblygu eu rolau strategol a monitro ymhellach, ac yn cwrdd â'r gofynion statudol a rheolaethol yn llawn.

**Gwella ansawdd: Rhagorol**

Mae hunanarfarnu'n greiddiol i fywyd a gwaith yr ysgol. Sefydlodd y pennaeth dros dro weithdrefnau llwyddiannus iawn sy'n rhoi sylw penodol i'r pynciau craidd a medrau. Rhoddir ystyriaeth i ystod o wybodaeth sy'n cynnwys data ar safonau a dadansoddiad o waith plant. Mae trylwyredd y gweithgarwch hwn yn sicrhau darpariaeth sy'n ateb gofynion pob disgybl. Mae hon yn agwedd ardderchog.

Mae athrawon a'r pennaeth yn rhoi sylw cyson i dystiolaeth am ansawdd yr addysgu a'r dysgu drwy arsylwadau dosbarth a sefydlwyd trefniadau llwyddiannus i ganfod barn rhieni a disgyblion drwy holiaduron. Sicrha'r pennaeth ei bod yn arsylwi pob aelod o staff addysgu a'r staff cynorthwyol yn rheolaidd. Mae athrawon yn trafod llawer gyda'r disgyblion wrth fonitro pynciau ac yn ystyried canlyniadau holiaduron yn y broses hunanarfarnu. Mae'r broses yn barhaus, ac yn derbyn barn uniongyrchol gan ddisgyblion, llywodraethwyr a rheini

Defnyddir gwybodaeth o hunanarfarniadau yn effeithiol iawn i ddatblygu blaenoriaethau cynlluniau gwella gyda ffocws ar wella medrau. Mae cyswllt naturiol rhwng deilliannau'r weithdrefn hunanarfarnu a blaenoriaethau'r cynllun gwella ysgol. Mae'r cynlluniau gwella blynyddol o ansawdd arbennig o dda ac yn cynnwys strategaethau priodol sy'n diffinio tasgau i'w cyflawni o fewn cyfnodau addas.

Mae'r cyfrifoldeb am gydlynu'r strategaethau wedi ei ddyrannu'n briodol i wahanol aelodau staff ac wedi arwain at welliannau penodol mewn darpariaeth a safonau ar draws yr ysgol. Mae'r pennaeth yn monitro asesu pob dosbarth yn rheolaidd gyda mewnbwn oddi wrth staff yn sicrhau cysondeb o ran lefelu a gofalu bod unrhyw dangyflawni yn cael ei adnabod yn gynnar.

Mae'r ysgol yn cydweithio ag ysgolion cyfagos ble datblygwyd rhwydweithiau effeithiol iawn o arfer broffesiynol. Mae hyn wedi arwain at welliannau mewn cynllunio cwricwlaidd a datblygiadau gwerthfawr mewn trefniadau ar gyfer lles disgyblion.

**Gweithio mewn partneriaeth: Rhagorol**

Mae'r pennaeth dros dro yn gweithredu partneriaethau strategol cadarn gyda holl rhanddeiliaid yr ysgol ac yn gwneud hynny er mwyn sicrhau gwelliant parhaus.

Mae partneriaethau gyda rhieni, y gymuned ac ysgolion eraill yn gryf ac yn cyfrannu'n effeithiol at wireddu nodau'r ysgol. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol iawn ar safonau a lles disgyblion.

Ceir cysylltiadau adeiladol iawn gyda busnesau lleol a sefydliadau addysg uwch, ac mae'r ysgol yn rhoi pwyslais mawr ar ddatblygu addysg tu hwnt i furiau'r ysgol. Bu'r cydweithio diweddar rhwng y gymuned, coleg addysg bellach lleol, a'r ysgol uwchradd ar brosiect adeiladu castell yn enghraifft ragorol o hyn. Drwy'r prosiect, datblygodd y disgyblion ddealltwriaeth gadarn o fedrau ac egwyddorion elefennol adeiladu, gan gydweithio'n agos ac effeithiol gydag arbenigwyr yn y maes.

Mae'r ysgol yn chwarae rhan flaenllaw ym mywyd y gymuned leol. Yn aml iawn, bydd yr ysgol yn arwain ar fentrau cymunedol er lles y disgyblion a lles y gymuned. Er enghraifft, dan arweiniad ac ysgogiad y pennaeth, sicrhaodd y gymuned ddarn o dir i'w ddatblygu i greu llwybr diogel i'r ysgol a chreu amgylchedd allanol ar gyfer datblygu addysg awyr agored ac amgylcheddol ar gyfer y disgyblion. Mae aelodau'r gymuned yn cydnabod yr ysgol fel partner llawn ym mywyd y pentref er bod 70% o'r disgyblion yn byw y tu allan i'r gymuned.

Mae'r trefniadau trosglwyddo disgyblion i'r ysgolion uwchradd lleol yn paratoi'r disgyblion hŷn yn dda ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg. Mae'r ysgol yn cydweithio'n effeithiol gydag ysgolion cynradd eraill yr ardal ynghyd â'r ysgolion uwchradd er mwyn cymedroli a safoni gwaith disgyblion.

Mae cysylltiadau cryf gyda'r awdurdod lleol a sefydliadau hyfforddi athrawon.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r arweinwyr a rheolwyr yn rheoli'r adnoddau a'r staff a ddyrennir i'r ysgol yn briodol. Mae trefniadau addas yn eu lle ar gyfer gwerthuso a rheoli perfformiad yr holl staff a chyfleoedd gwerthfawr i'r staff elwa o ddatblygiad proffesiynol parhaus.

Cynllunnir defnydd ardderchog o gynorthwywyr dosbarth ac mae eu cyfraniad drwy'r ysgol wrth gefnogi disgyblion yn gymorth i godi safonau. Maent hefyd yn rhoi cymorth effeithiol i blant ac anghenion arbennig a phlant galluog.

Mae gan y pennaeth a'r llywodraethwyr brosesau da i fonitro'r gyllideb. Mae cyswllt cryf rhwng blaenoriaethau'r ysgol a phenderfyniadau gwariant.

Mae'r ysgol yn darparu gwerth da am arian.

## Atodiad 1

### Sylwadau ar ddata perfformiad

Ers sefydlu'r teulu o ysgolion tebyg, mae nifer o ysgolion wedi cau, a dim ond saith o ysgolion sydd ynddo bellach. Oherwydd bod y carfannau o ddisgyblion yn gyson fach ar ddiwedd cyfnod allweddol 1 a chyfnod allweddol 2, nid yw'n bosibl dod i farn ystyrlon yn seiliedig ar y canlyniadau.

### Cyfnod Allweddol 1

Bu perfformiad yr ysgol mewn Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth mewn cyfuniad yn amrywiol. Yn 2011, roedd canlyniadau asesiadau athrawon o gwmpas cyfartaleddau'r teulu a Chymru. Nid oes bwlch arwyddocaol rhwng perfformiad y bechgyn a'r merched, ac nid oes modd gwneud cymhariaeth ystyrlon o ran perfformiad ar lefel 3 neu uwch.

### Cyfnod Allweddol 2

Amrywiodd canlyniadau asesiadau athrawon yn fawr iawn, ac ni ellir tynnu unrhyw wybodaeth ystyrlon ohonynt oherwydd y niferoedd bychan. Er enghraifft, mae perfformiad yr ysgol o'i gymharu ag ysgolion tebyg o ran nifer y disgyblion sydd â hawl i ginio am ddim yn neidio'n sydyn o fod ym mhlith y 25% uchaf i fod ymhlith y 25% isaf.

## Atodiad 2

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Holiaduron disgyblion

Ymatebodd 23 o ddisgyblion i'r holiadur.  Yn gyffredinol mae'r ymatebion yn bositif iawn.  Mae rhan fwyaf y disgyblion yn credu bod yr ysgol yn eu dysgu sut i gadw'n iach, ac yn gwybod at bwy i droi os ydynt yn poeni neu ofidio.  Mae'r rhan fwyaf hefyd yn dweud bod yr oedolion yn yr ysgol yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd.  Dywed llawer o'r disgyblion eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol a bod yr ysgol yn delio'n dda gydag unrhyw fwlio.  Credant eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol a bod llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i gael ymarfer corff rheolaidd.  Mae llawer o'r disgyblion yn gwybod beth i'w wneud a gyda phwy i siarad os ydynt yn gweld eu gwaith yn anodd, ac yn credu bod eu gwaith cartref yn eu helpu i ddeall a gwella gwaith ysgol.  Mae'r mwyafrif o ddisgyblion yn dweud bod digon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron yn yr ysgol, a bod disgyblion eraill yn ymddwyn yn dda yn y gwersi ac amser chwarae a chinio.

### Holiaduron rhieni

Derbyniwyd 24 o ymatebion.  Dywed llawer o'r rhieni bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda.  Mae pob un ohonynt yn datgan bod yr addysgu'n dda a bod eu plant wedi cael cymorth i ymgartrefu'n dda.  Mae'r rhan fwyaf o'r rhieni'n dweud eu bod yn fodlon â'r ysgol yn gyffredinol, a bod eu plant yn hoffi'r ysgol.  Maent o'r farn bod eu plant yn gwneud cynnydd da, a'u bod yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol.  Dywedant fod y staff yn disgwyl i'w plant weithio'n galed, a bod gwaith cartref yn adeiladu'n dda ar waith ysgol.  Mae rhieni o'r farn hefyd fod y staff yn trin y disgyblion â pharch, a bod y disgyblion yn cael anogaeth i gadw'n iach a chael cyfle i ymarfer corff yn rheolaidd.  Credant fod eu plant yn ddiogel yn yr ysgol a bod cymorth ychwanegol priodol yn cael ei roi pan fo angen.  Dywed y rhan fwyaf o rieni bod yr ysgol yn helpu i'w plant dyfu'n fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb a bod amrywiaeth dda o weithgareddau ar eu cyfer yn yr ysgol a thu allan.  Mae'r ysgol yn paratoi plant yn dda ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg.  Mae llawer o rieni'n dweud eu bod yn derbyn gwybodaeth gyson am gynnydd eu plant, eu bod yn deall y drefn gwynion ac yn teimlo'n esmwyth wrth ofyn cwestiynau neu wneud awgrymiadau i'r ysgol.

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Terwyn Tomos | Arolygydd Cofnodol |
| Enir Rees Morgan | Arolygydd Tîm |
| Glenda Jones | Arolygydd Lleyg |
| Meinir Lloyd Jones | Arolygydd Cymheiriaid |
| Gayle Shenton | Enwebai'r Ysgol |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Reoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad i holl rieni'r ysgol. Lle mae disgybl yn cael ei leoli yno gan awdurdod lleol, dylai'r ysgol anfon copi o'r adroddiad at bob awdurdod perthnasol. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (CSD) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae CS Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | CSD | CSB1 | CSB2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Cwricwlwm Cenedlaethol**

**Lefelau disgwyliedig y Cwricwlwm Cenedlaethol**

- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 1, yn saith oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 2 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 3.
- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 5.

**Y dangosydd pwnc craidd ym mhob cyfnod allweddol**

Mae'r dangosydd pwnc craidd yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol. Rhaid i ddysgwyr gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf ynghyd â mathemateg a gwyddoniaeth er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall ysgolion ac awdurdodau lleol gyfeirio at berfformiad o gymharu â'u teulu o ysgolion. Crëwyd y teuluoedd hyn o ysgolion i alluogi ysgolion gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion sy'n byw yn 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad, a disgyblion sy'n llai na chymwys o ran dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.